

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL - DYDD LLUN, 7 MEDI 2020**

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD LLUN, 7 MEDI 2020, AM 14:00**

Presennol

Y Cynghorydd CA Green – Cadeirydd

|              |              |                   |             |
|--------------|--------------|-------------------|-------------|
| JPD Blundell | NA Burnett   | N Clarke          | J Gebbie    |
| T Giffard    | M Jones      | RL Penhale-Thomas | KL Rowlands |
| RMI Shaw     | JC Spanswick | T Thomas          |             |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Swyddogion:

|                |   |
|----------------|---|
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democraidd - Craffu |
| Rachel Pick    | Swyddog Craffu                                |
| Mark Shephard  | Prif Weithredwr                               |
| Tracy Watson   | Swyddog Cymorth Craffu                        |

Gwahoddedigion:

Cynghorydd Stuart Baldwin  
Cynghorydd Richard Collins  
Cynghorydd Alex Williams  
176. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd Nicole Burnett fuddiant personol gan ei bod yn gadeirydd Neuadd Evergreen.

177. CADARNHAU COFNODION

**PENDERFYNIAD:** Cymeradwywyd Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd 2019 yn amodol ar y newid canlynol:  
Datganodd y Cynghorydd Blundell fuddiant personol oherwydd ei fod yn aelod di-chwarae o'r Cardiff Saracens a oedd yn yr un gynghrair â Chlwb Rygbi Bracla.

Cymeradwywyd Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2020.

178. PANEL ADFER TRAWSBLEIDIOL - CANFYDDIADAU AC ARGYMHELLION CAM 1

Aeth Cadeirydd y Panel Adfer Trawsbleidiol â'r Pwyllgor drwy'r adroddiad. Diben yr adroddiad oedd cyflwyno Canfyddiadau ac Argymhellion Cam 1 y Panel Adfer Trawsbleidiol i'r Pwyllgor. Nododd Adran 2 y cysylltiad ag amcanion llesiant corfforaethol a blaenoriaethau corfforaethol eraill. Rhoddodd adran 3 y cefndir mewn perthynas â'r pandemig Covid-19 a'r cyfnod clo, a sefydlu'r Panel Adfer Trawsbleidiol ac aelodaeth ynghyd ag Aelodau ychwanegol a siaradwyr gwadd a wahoddwyd o'r ardaloedd dethol yr oedd y Panel am ymchwilio ymhellach iddynt. Roedd Cam 1 y Panel Adfer Trawsbleidiol wedi mabwysiadu dull strwythuredig o dethol meysydd allweddol o'r rhai a nodwyd i gael blaenoriaeth i fwydo i mewn i'r broses adfer ac wedi nodi materion allweddol yn dilyn archwiliad. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys goblygiadau Deddf

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nid oedd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Roedd Cadeirydd y Panel Adfer Trawsbleidiol am ddiolch i'r holl Aelodau dan sylw am yr hyn a ystyriai'n ddull cyfranogol strwythuredig a gobeithiai y byddai'n parhau.

Roedd Is-gadeirydd y Panel Adfer Trawsbleidiol yn dymuno adleisio geiriau Cadeirydd y Panel Adfer. Cyfeiriodd at Argymhelliad 8 a'r ffaith bod angen iddo fod yn fwy eglur drwy argymhell Cynllun Tai yn Gyntaf a oedd yn rhoi tai i bobl agored i niwed cyn mynd i'r afael ag unrhyw anghenion pellach gan nad oedd yn credu bod cynllun o'r fath ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Cadarnhaodd Cadeirydd y Panel Adfer Trawsbleidiol fod V2C yn gweithredu Cynllun Tai yn Gyntaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Cymerodd y Cadeirydd bwynt yr Aelod ond teimlai y byddai'n annheg gwneud unrhyw beth ymhellach gyda'r argymhellion o ystyried mai'r rhain oedd yr argymhellion a gyflwynwyd gan y Panel ac na chodwyd y pwynt yng Nghyfarfod y Panel Adfer Trawsbleidiol.

Yna cyfeiriodd yr Aelod at Argymhelliad 16. Er ei fod yn cytuno mewn egwyddor ei bod yn bwysig i'r Awdurdod gydweithio ag Awdurdodau eraill, roedd yn pryderu nad oedd Pen-y-bont ar Ogwr yn cyd-fynd â nodweddion y cynghorau dinesg a ffurfiodd y fenter gydweithredol. Teimlai ei bod yn well i Ben-y-bont ar Ogwr gydweithio ag awdurdodau cyfagos. At hynny, nododd fod gan Gymru gyfreithiau ac egwyddorion gwahanol i'w chymheiriaid yn Lloegr a bod angen parchu datganoli yng Nghymru.

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelod fod yr argymhellion yn awr i'w hystyried gan y Cabinet, a fyddai'n ymateb yn briodol pe bai'n amlwg nad oedd Pen-y-bont ar Ogwr yn cyd-fynd â menter gydweithredol. Nododd y Cadeirydd y gallai'r Pwyllgor ofyn i'r Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am eu canfyddiadau pe baent yn bwrw ymlaen â'r argymhelliad. Cytunodd yr Aelod ar hyn.

Nododd Aelod fod y Panel Adfer Trawsbleidiol wedi bod yn ddefnyddiol o ran ei amlder a'i gynnwys. Dangosodd y gwaith a wnaed gan y Panel yr hyn y gallai Grwpiau Gorchwyl a Gorffen ei gyflawni ac roedd yn hapus iawn â'r ffordd yr oedd wedi gweithio hyd yma ac yn dymuno iddo barhau. Roedd yn llwyr gefnogi'r argymhellion, yn enwedig Argymhelliad 1. Teimlai nad oedd cynaliadwyedd a gwerth diwylliant, hamdden a manau gwyrdd yn y dyfodol wedi'u gwerthfawrogi hyd yma ac felly'n cymeradwyo y dylid ei ychwanegu at y rhestr o flaenoriaethau allweddol a nodwyd yn adroddiad y Cabinet ar gynllunio adferiad ar 30 Mehefin 2020, er mwyn hwyluso iechyd, ymarfer corff a lles.

Dywedodd Aelod ei bod yn cefnogi Pen-y-bont ar Ogwr i ddod yn Gyngor Cydweithredol a nododd ei fod yn cyd-fynd yn llawn ag agenda Llywodraeth Cymru. Cyfeiriodd at bapur gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2013 a oedd yn cydnabod pwysigrwydd mentrau cydweithredol yng Nghymru. Gwerthusodd papur ymchwil pellach a gyhoeddwyd yn 2016 y datblygiadau tai corfforaethol yng Nghymru ac roedd yn cynnwys astudiaethau achos cadarnhaol. Nododd fod llawer o gynghorau'n gweithio ochr yn ochr â llinellau cydweithredol. Teimlai'r Aelod nad oedd a wnelo bod yn rhan o fenter gydweithredol ddim â datganoli ond ei fod yn ymwneud â modelau cydweithredol sy'n eiddo i waith a democrateiddio'r economi. Y ffaith bod cynghorau mwy yn cael eu cyfrif fel cynghorau cydweithredol ar hyn o bryd oedd mai hwy oedd yr ymatebwyr cynnar a gosodwyr y cyflymder. Ni welodd yr Aelod unrhyw reswm pam na ddylai Pen-y-bont ar Ogwr ymuno â nhw.

Tynnodd Aelod sylw at y ffaith na allai hi chwaith weld unrhyw reswm pam nad oedd Pen-y-bont ar Ogwr, dim ond am ei fod yng Nghymru, yn bodloni unrhyw fodel

cydweithredol. Cyfeiriodd at nifer y modelau cydweithredol, er am dymor bach ac ar raddfa fach, a oedd wedi gweithredu'n llwyddiannus drwy gydol y pandemig.

Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Panel Adfer Trawsbleidiol am y ffordd effeithlon a phrydlon yr oeddent wedi llunio'r hyn a ystyriodd yn rhestr o argymhellion synhwyrol ar y cyfan. Roedd yn sicr y byddai'r Cabinet hefyd yn ei weld yn yr un ffordd. Awgrymodd y byddai'n ddefnyddiol cael rhywfaint o eglurhad a thystiolaeth ynghylch pob argymhelliad fel bod y Cabinet yn glir ar ba sail y gofynnwyd iddo ymgymryd â rhai o'r argymhellion. Yn fras, byddai'r argymhellion hyn, ynghyd â'r rhai a fyddai'n dod o'r Tasglu Economaidd, yn ffurfio rhestr o flaenoriaethau i'w datblygu ar gyfer adferiad Pen-y-bont ar Ogwr.

Nododd Cadeirydd y Panel Adfer Trawsbleidiol y cynhyrchwyd cofnodion helaeth a oedd yn cyd-fynd â'r argymhellion. Byddai'r rhain yn llunio tystiolaeth a chyd-destun pob argymhelliad. Dewisodd y Panel osod lefel benodol o gyd-destun yn unig yn yr adroddiad at ddibenion effeithlonrwydd. Cyfeiriodd at rai o'r meysydd trafod a oedd yn arbennig o hir, e.e. digartrefedd ac agenda'r Awdurdod ar fynd i'r afael â grwpiau agored i niwed. Gellid darparu'r cofnodion i'r Cabinet.

Aeth y Cadeirydd ymlaen ag Argymhellion 1 i 16 a gwahoddodd unrhyw sylwadau.

Gofynnodd y Prif Weithredwr am fwy o eglurder ar gyfer Argymhellion 11 a 12. Roedd o'r farn bod y ddau argymhelliad hyn yn enghreifftiau da o ble y byddai'r dystiolaeth/dogfennau'n ddefnyddiol er mwyn i'r Cabinet ddeall ar ba sail y gofynnwyd iddo ysgrifennu at V2C. Deallodd y pwynt cyffredinol a phe bai rhagor o gyfnodau clo, byddai Pen-y-bont ar Ogwr am ddysgu gwersi.

Cytunodd y Cadeirydd â'r uchod, gan ychwanegu bod y ffigurau a gyflwynwyd i'r Panel Adfer Trawsbleidiol a gasglwyd yn y Cofnodion wedi ysgogi'r argymhelliad i ysgrifennu at V2C fel y darparwr RSL mwyaf.

Tynnodd y Prif Weithredwr sylw ymhellach at y ffaith bod y cyd-destun yn bwysig wrth geisio meithrin a chynnal perthynas â RSL mwyaf Pen-y-bont ar Ogwr wrth symud ymlaen.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n hapus i siarad â'r Cabinet ar y pwynt uchod ac i ddarparu unrhyw wybodaeth bellach sydd ei hangen.

Nododd Aelod y teimlid rhwystredigaeth glir, fel yr oedd yn ei deall, nad oedd V2C yn cydweithredu cystal ag y gallent, yn enwedig yn ystod Covid-19, yn gyntaf drwy roi eu staff ar ffyrlo fel nad oeddent yn gallu gwneud atgyweiriadau, ac yn ail wrth geisio cartrefu pobl mewn angen. Roedd yn ymddangos eu bod yn llai o landlord cymdeithasol ac yn fwy o landlord yn y ffordd yr oeddent yn gweithredu. Dywedodd mai dyma fu'r duedd ers tro yn anffodus, a bod angen taro gwell bargaen yn y dyfodol.

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn deall pwynt yr Aelod. Esboniodd y bu nifer o gyfarfodydd cadarnhaol yn ystod y misoedd diwethaf gyda Phrif Weithredwr newydd V2C a oedd, hyd at y cam hwn, wedi bod yn barod i weithio gyda'r Awdurdod. Roedd yn gobeithio y byddai'r Cabinet yn ystyried beirniadaethau'r Panel Adfer Trawsbleidiol ac yn gwneud cynnydd.

Dywedodd y Cadeirydd fod y Panel yn teimlo'n gryf am geisio datblygu gwell perthynas â V2C a chael mwy o gydweithredu o ran eu swyddogaeth a swyddogaeth a chyfrifoldebau'r Awdurdod.

Gofynnodd y Prif Weithredwr am eglurhad pellach ar Argymhelliad 14 a beth oedd y disgwyliadau.

Eglurodd Cadeirydd y Panel Adfer Trawsbleidiol fod Argymhelliad 14 yn ymwneud ag a fyddai'r Arweinydd o bosibl yn gwneud defnydd o swydd wag yr Aelod Cabinet. Yr argymhelliad oedd rhoi'r strategaethau ariannol priodol ar waith pe bai ail/trydedd don o Covid-19 yn digwydd.

Eglurodd Aelod ymhellach fod Argymhelliad 14 yn ymwneud â'r gwersi a ddysgwyd o reolaeth yr Awdurdod o'i gyfrifoldebau yn ystod y don gyntaf, h.y. yr hyn a wnaed yn dda a'r hyn y gellid ei wella. Gofynnodd yr argymhelliad am roi cynllun ar waith pe bai ail gyfnod clo wedi'i gyflwyno ar draws Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd angen i'r cynllun fod yn gyfnewidiol a chael cydnerthedd ariannol i gefnogi'r costau sefydlu cyllid cyfalaf i gefnogi sefydliadau fel BAVO, yn ogystal â chyllideb wrth gefn i fynd â Phen-y-bont ar Ogwr drwy gyfnod clo. Roedd yr argymhelliad yn ymwneud â chynhyrchu a gweithredu cynllun clo Covid-19 pwrpasol.

**PENDERFYNIAD:**

Mae'r Pwyllgor:

a) Yn cymeradwyo Canfyddiadau ac Argymhellion y Panel Adfer Trawsbleidiol sydd ynghlwm yn Atodiad A i'w cyflwyno i'r Cabinet ar 15 Medi 2020 fel rhan o'r broses adfer, er mwyn bwydo i mewn i adlinio Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yr Awdurdod a'r Cynllun Corfforaethol;

b) Nodi'r camau nesaf a gynigwyd ar gyfer y Panel Adfer fel yr amlinellir ym Mharagraff 4.5 o'r adroddiad, ac yn cytuno ar waith y Panel i barhau y tu hwnt i fis Medi.

179. **PERFFORMIAD Y CYNGOR YN ERBYN EI AMCANION LLESIANT AR GYFER 2019-20**

Roedd y Cadeirydd yn pryderu bod yr adroddiad wedi'i anfon fel adroddiad gwybodaeth yn cynnwys eitemau statws coch, a byddai wedi bod yn fuddiol gofyn cwestiynau ar yr eitemau hynny. Ymddiheurodd am nad oedd swyddog yn bresennol. Gofynnodd a oedd unrhyw sylwadau ar yr adroddiad.

Awgrymodd y Prif Weithredwr, fel eitem Pwyllgor wrth symud ymlaen, y dylai Cyfarwyddwyr fod yn bresennol i roi trosolwg o'u hardal ac i fynd drwy eitemau statws coch ac ambr. Ei farn bersonol ef oedd y byddai hyn yn creu craffu cryfach a mwy o gyfle i Aelodau gymryd rhan ac i ddeall y rhesymau pam nad oedd targedau wedi'u cyrraedd neu, mewn rhai achosion, y rhagorwyd arnynt. Nododd y Prif Weithredwr, gyda chaniatâd y Cadeirydd, pe bai hwn yn argymhelliad yr oedd yr Aelodau'n dymuno'i wneud, y gallai'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr fynychu'r Pwyllgor yn flynyddol er mwyn ateb y cwestiynau manwl.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Weithredwr. Dywedodd y dylai fod cyfle i Aelodau'r Pwyllgor ofyn cwestiynau i'r Cyfarwyddwyr/cynrychiolydd mwyaf priodol i egluro beth oedd yn cael ei wneud a pha dargedau oedd yn cael eu cyrraedd. Roedd angen mwy o graffu ar eitemau statws coch, a heb ofyn cwestiynau nid oedd craffu'n cael ei wneud fel y dylai. Nid oedd angen eglurhad pellach o eitemau statws gwyrdd, h.y. lle'r oedd targedau'n cael eu cyrraedd.

Dywedodd yr Aelodau y byddent am i'r Cyfarwyddwyr/cynrychiolydd mwyaf priodol ateb cwestiynau ar eitemau adrodd nad oeddent yn symud ymlaen yn y dyfodol. Cytunodd y Prif Weithredwr i ddatblygu hyn.

**PWYLLGOR TROSOLWIG A CHRAFFU CORFFORAETHOL - DYDD LLUN, 7 MEDI 2020**

PENDERFYNIAD: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad perfformiad, a chytunodd y dylai Cyfarwyddwyr/y person mwyaf priodol fod yn bresennol i ateb cwestiynau am y meysydd hynny nad oeddent yn cyflawni mewn adroddiadau perfformiad yn y dyfodol.

180. EITEMAU BRYD

Dim.